


Mae 2 sgan ar gael i'ch babi.

Sgan cyntaf rhwng 11 ac 14 wythnos  
Ail sgan rhwng 18 a 20 wythnos

**Llyfryn hawdd ei ddarllen** am sganiau sgrinio pan  
rydych chi'n feichiog



## Yn y llyfryn yma

## Tudalen



Eich dewis

3



Am y sgan cyntaf

5



Canlyniadau'r sgan cyntaf

8



Am yr ail sgan

9



Canlyniadau'r ail sgan

11



## Eich dewis



Mae gwybodaeth yn y llyfryn yma am y sganiau sydd ar gael i chi.

Gall y sganiau ddangos problemau gyda'ch babi cyn iddo gael ei eni.

Os byddwn ni'n dod o hyd i broblem gallwn ni roi gwybodaeth i chi neu ddisgrifio'r gofal arbennig y bydd eich babi efallai ei angen ar ôl y geni.



Nid yw'r sganiau'n gallu dod o hyd i bob problem.

Chi fydd yn dewis ydych chi eisiau cael y sganiau.



Mae canlyniadau'r sgan yn gallu eich helpu i benderfynu am eich gofal pan rydych chi'n feichiog.

Mae croeso i chi siarad gyda'ch bydwraig neu feddyg os ydych chi'n poeni.



Fyddwn ni ddim yn dangos  
canlyniadau'r sgan i neb heblaw am  
staff iechyd sydd angen eu gweld nhw.



Mae'n bwysig eich bod chi'n dweud  
wrth eich bydwraig am unrhyw  
broblemau iechyd sydd gennych chi.



## Am y sgan cyntaf



Os ydych chi rhwng wythnosau 11 ac 14 o'ch beichiogrwydd gallwch chi gael sgan i:

- chwilio am guriad calon eich babi
- gweld faint o fabanod sydd yno
- mesur eich babi
- ac i ddweud wrthyddych chi'r dyddiad mae disgwyl i'ch babi gael ei eni.



Mae'r sgan o'ch babi'n cael ei wneud drwy wal eich stumog.

Gallwch chi gael y sgan os ydych chi rhwng wythnos 11 ac wythnos 14 o'ch beichiogrwydd.

Nid yw'n syniad da i chi ddod â phlant i'r sgan.

Peidiwch â phasio dŵr (gwneud pi-pi) am tua awr cyn y sgan



Dyma'r drefn yn ystod y sgan.

1. Byddwch chi'n gorwedd ar wely.



2. Byddwch chi'n tynnu eich top i fyny a'ch sgert neu drowsus i lawr i'ch cluniau. Bydd hyn yn gadael eich abdomen heb ddillad.



3. Bydd y sgriniwr yn rhoi jel arbennig ar eich stumog fel bod y sgan yn gweithio'n dda. Mae'n jel yn oer weithiau.



4. Bydd y sgriniwr yn gwthio dyfais (chwiliedydd) dros eich stumog. Efallai bydd yn teimlo'n anghyfforddus.



Bydd y sgan yn rhoi llun du a gwyn o'ch babi.

Mae'r rhan fwyaf o sganiau'n dangos bod y babi'n iach.



Efallai bydd y sgan yn dod o hyd i broblemau.

Mewn achosion prin efallai na fydd y babi'n dal yn fyw.

Efallai byddwch chi eisiau rhywun yno i fod yn gefn i chi.



Nid yw'r sgan yn achosi poen i'ch babi.



Bydd y person sy'n gwneud y sgan yn dweud wrthy'ch chi beth sydd i'w weld.

Mae'r mwyafrif o sganiau'n iawn ac mae'r babi'n edrych yn iach.



## Canlyniadau'r sgan cyntaf




Os oes posibilrwydd bod problem wedi codi, efallai byddwn ni'n gofyn i chi weld arbenigwr.

Efallai bydd yr arbenigwr yn gwneud sgan arall neu'n rhoi mwy o ddewisiadau i chi.



## Am yr ail sgan



Os ydych chi rhwng wythnosau 18 ac 20 o'ch beichiogrwydd gallwch chi gael sgan i chwilio am broblemau yn:

- esgyrn
- calon
- ymennydd
- asgwrn cefn
- wyneb
- arenau
- ac abdomen (stumog) eich babi.



Mae'r sgan o'ch babi'n cael ei wneud drwy wal eich stumog.

Gallwch chi gael y sgan os ydych chi rhwng wythnos 18 ac wythnos 20 o'ch beichiogrwydd.

Nid yw'n syniad da i chi ddod â phlant i'r sgan.

Peidiwch â phasio dŵr (gwneud pi-pi) am tua awr cyn y sgan.



Dyma'r drefn yn ystod y sgan.

1. Byddwch chi'n gorwedd ar wely



2. Byddwch chi'n tynnu eich top i fyny a'ch sgert neu drowsus i lawr i'ch cluniau. Bydd hyn yn gadael eich abdomen heb ddillad.



3. Bydd y sgriniwr yn rhoi jel arbennig ar eich stumog fel bod y sgan yn gweithio'n dda. Mae'n jel yn oer weithiau.



4. Bydd y sgriniwr yn gwthio dyfais (chwiliedydd) dros eich stumog. Efallai bydd yn teimlo'n anghyfforddus.



Bydd y sgan yn rhoi llun du a gwyn o'ch babi.

Mae'r rhan fwyaf o sganiau'n dangos bod y babi'n iach.



Efallai bydd y sgan yn dod o hyd i broblemau.

Efallai byddwch chi eisiau rhywun yno i fod yn gefn i chi.



Nid yw'r sgan yn achosi poen i'ch babi.



Bydd y person sy'n gwneud y sgan yn dweud wrthy'ch chi beth sydd i'w weld.

Mae'r mwyafrif o sganiau'n iawn ac mae'r babi'n edrych yn iach.



## Canlyniadau'r ail sgan



Os oes posibilrwydd bod problem gyda'r babi, efallai byddwn ni'n gofyn i chi weld arbenigwr.

Efallai bydd yr arbenigwr yn gwneud sgan arall neu'n gwneud prawf arall sy'n cael ei alw'n brawf ymyrrol.


Mae siawns isel (tua un o bob 200) y gallai'r prawf ymyrrol wneud i chi gollu'r babi.



Os bydd hyn yn digwydd, fydd eich babi ddim yn byw.

Byddwch chi'n cael cyfle i siarad gyda'ch bydwraig am y prawf.

Rydych chi'n rhydd i wrthod cael y prawf yma.



Efallai bydd y prawf nesaf yma'n amniocentesis.

Mae'n golygu rhoi nodwydd denau iawn i mewn i'ch stumog.

Mae'r nodwydd yn tynnu ychydig o'r hylif sydd o amgylch y babi.

Mae'n bosibl gwneud profion ar yr hylif i chwilio am broblemau.



Mae rhai menywod sy'n cael gwybod bod problem gyda chorff eu babi'n penderfynu gadael i'r beichiogrwydd fynd yn ei flaen.

Mae rhai menywod sy'n cael gwybod bod problem gyda chorff eu babi'n penderfynu dydyn nhw ddim eisiau i'r beichiogrwydd fynd yn ei flaen. Maen nhw'n cael erthyliaid sy'n golygu fydd y babi ddim yn byw.



Os oes problem gyda chorff eich babi byddwn ni'n eich helpu i benderfynu ydych chi eisiau erthyliaid neu beidio. Chi fydd yn gwneud y penderfyniad.



Os byddwch chi'n symud tŷ mae'n bwysig eich bod chi'n dweud wrth eich bydwraig.